

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb manwl o'r rhaglen MA Rheoli Llwyfan a Digwyddiadau fel y'i cynigir o fis Medi 2019. A fydddech cystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir hyd yma, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr *fel arfer* lwyddo ym mhob modiwl ac ennill 180 o gred.

Mae'r rhaglen yn rhoi hyfforddiant trylwyr, a gydnabyddir gan y proffesiwn, ar gyfer graddedigion unrhyw ddisgyblaeth sy'n dymuno gweithio ym maes rheoli llwyfan, digwyddiadau, cynyrchiadau neu reoli technegol; neu'r rheini sydd wedi gweithio ym maes theatr, digwyddiadau a diwydiannau cysylltiedig yn y byd adloniant ac sy'n chwilio am hyfforddiant ffurfiol.

Sgiliau Ymarferol

Credydau: 20

Dulliau Addysgu: Arddangosiadau Ymarferol, Seminarau ac Ymarferion Grŵp

Asesiad: Asesiad Parhaus (100%)

Trwy'r modiwl hwn bydd myfyrwyr yn datblygu ystod o sgiliau ymarferol a threfnu sy'n gysylltiedig â rôl rheoli wrth greu a chynhyrchu digwyddiadau adloniant a pherfformio byw. Bydd myfyrwyr yn dysgu sgiliau sy'n cynnwys rigio a defnyddio offer goleuo a sain theatr, adeiladu a rigio golygfeydd mewn theatr a defnydd offer cyfathrebu theatr. Bydd y modiwl yn archwilio'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â chynhyrchu theatr a'r fethodoleg rheoli sy'n ymwneud â chefnogi cyfarwyddwyr, cynllunwyr ac actorion er mwyn greu a chynhyrchu digwyddiadau theatr byw.

Rheoli mewn Cyd-destun

Credydau: 20

Dulliau Addysgu: Seminarau a Gweithdai

Asesiad: Cynllun Taith/Digwyddiad wedi'i Gostio a Chyflwyniad (100%)

Rhoddir hyfforddiant mewn sgiliau cynllunio drwy ymarferiad tîm er mwyn cynllunio a chostio amrywiaeth o berfformiadau byw. Mae'r modiwl hefyd yn archwilio methodolegau costio a datrys problemau logisteg ac yn datblygu sgiliau tîm er mwyn cefnogi gwaith pobl eraill. Mae'r rhan olaf hwn o'r modiwl yn edrych ar eich llwybr gyrfa hirdymor drwy baratoi sgiliau chwilio gwaith a chreu deunyddiau hunanhyrwyddo.

Lleoliad 1 a 2

Credydau: 40

Dulliau Addysgu: Gwerthusiad Parhaus

Asesiad: Asesiad Ymarferol (30%, 70%)

Bydd y myfyrwyr yn dechrau gweithio ar gynyrchiadau theatraidd a/neu ddigwyddiadau mewnol yn gyntaf fel aelodau iau o'r timau ac yna'n cymryd rolau sydd â rhagor o gyfrifoldeb. Bydd cyfnod y lleoliad rhwng pump a saith wythnos.

Lleoliad 3 a 4

Credydau: 40

Dulliau Addysgu: Gwerthusiad Parhaus a Mentora Unigol

Asesiad: Asesiad Ymarferol (50%, 50%)

Yn y modiwlau hyn gall myfyrwyr weithio ar amrywiaeth o berfformiadau byw, sy'n aml yn rhai allanol i'r Coleg fel lleoliad gwaith proffesiynol. Caiff y lleoliadau hyn eu teilwra'n ofalus i anghenion gyrfa unigol y myfyriwr. Gall y myfyrwyr hefyd ddewis gwneud lleoliad o fewn rhwydwaith y Coleg er mwyn datblygu ac ehangu eu sgiliau.

Portffolio Arfer Proffesiynol

Credydau: 60

Dulliau Addysgu: Tiwtorialau a Seminarau Arweiniol

Asesiad: Dyddlyfr Ysgrifenedig a Chyflwyniad (100%)

Bydd myfyrwyr yn dechrau ar yrfa ym maes rheoli llwyfan a digwyddiadau ac yn datblygu dyddlyfr myfyriol o'u harfer a'u datblygiad gweithio dros gyfnod o bum mlynedd ar ôl cofrestru. Darperir cefnogaeth academaidd a

mentoriaeth gan y Coleg, naill ai ar gampws y Coleg neu drwy ddulliau dysgu o bell. Mae hyn yn caniatáu gwaith i gael ei dderbyn un unrhyw le yn y byd.